

Yr Herwgipwyr

Roderick Hunt


Alex Brychta



Pïod

DRAKE






Roedd Onw yn drist am na wnâi'r allwedd hud
ddisgleirio.


Edrychodd ar yr allwedd am amser hir.

O'r diwedd, aeth i gysgu.

Yn sydyn, disgleiriodd yr allwedd
a dechreuodd yr hud weithio.



Roedd teganau Onw yn dod yn fyw.
Siglodd Tedi Onw.
“Deffra,” meddai.
“Mae'r allwedd hud yn disgleirio.
Mae'r hud yn gweithio.”



Eisteddodd Onw i fyny a rhwbio ei lygaid.
Edrychodd ar ei deganau.
“Dere ymlaen, Onw,” meddai Cathimir.
“Brysia! Mae'n bryd inni gael
antur hud.”



Rhedodd y teganau i'r tŷ bychan.
"Brysia, Onw," galwodd Tedi.
"Tyrd yn dy flaen neu bydd yn rhy hwyr."
Gallai Onw deimlo'r hud yn gweithio.
Tynnodd ef i mewn i'r tŷ hud.



Chwyrliodd yr hud Onw
o gwmpas.
"O help," galwodd Onw. "Rwy'n teimlo'n wahanol.
Hud o fath gwahanol yw hwn."

CROESO I FAES AWYR BÈRMINGHAM



Aeth yr hud â nhw i faes awyr.
Roedd yn faes awyr prysur iawn.
Roedd Cathimir yn gyffrous.
“Efallai y gallwn ddal awyren,” meddai.
“Efallai y gallwn gael antur gyffrous!”

Roedd eirth ymhob man.
Roedden nhw’n mynd i’r Swistir.
“Maen nhw’n mynd i Bicnic y Tedi Bêrs,”
meddai Tedi.
“Maen nhw’n cael un bob blwyddyn.”



“Efallai y gallwn ni fynd hefyd,” meddai Bynsen.
Doedd Onw ddim yn siwr.
“Sut medrwn ni?” gofynnodd.
“Wrth gwrs y gallwn ni fynd,” meddai Tedi.
“Antur hud yw hon.”



Aeth Onw a'i ffrindiau
ar yr awyren i'r Swistir.
Hedfanon nhw dros lynnoedd a mynyddoedd.
“Am le hyfryd
i gael picnic!” meddai Onw.




Pan laniodd yr awyren aeth pawb oddi arni.
Roedd llawer iawn o eirth.
Doedd Onw erioed wedi gweld cynifer.
Roedden nhw wedi dod o bedwar ban byd.
“Bydd yn bicnic mawr,” meddai Onw.


Roedd bws yn y maes awyr.
Roedd yn mynd i Bicnic y Tedis.
“Dewch,” meddai Cathimir, “os rhedwn ni
gallwn ddal y bws hwn.”




Roedd Onw yn hoffi'r Swistir.
"Mae'n hardd yma," meddai Onw.
Roedd yn hwyl ar lawr ucha'r bws.
Chwifiodd yr eirth ar bawb
a chwifiodd pawb yn ôl.




Cyrhaeddodd y bws o'r diwedd.
Daeth pawb oddi arno.
"Welais i erioed gymaint o eirth," meddai Onw.
"Well inni gadw gyda'n gilydd, rhag ofn inni fynd ar
goll."




Cafodd Onw a'i ffrindiau le da i eistedd.
Yn sydyn, gwaeddodd a bloeddiodd pawb.
Roedd arth enwog wedi dod i'r llwyfan.
Cododd ei law ar y dorff.
"Croeso i Bicnic y Tedis," meddai.



"Rwy'n ei adnabod e," meddai Onw.
"Mae'n arth enwog iawn.
Rwyf wedi darllen ei lyfrau i gyd."



Daeth arth enwog arall i'r llwyfan.
Dechreuodd ddweud ambell jôc a chanu
caneuon doniol.
Roedd pawb yn chwerthin ac yn bloeddio hwrê.
“Rwy’n adnabod yr arth enwog yna hefyd,” meddai Onw.
“Rwyf wedi ei weld e ar y teledu.”




Daeth grŵp pop enwog i'r llwyfan.
Chwaraeon nhw tra bod yr eirth
yn cael eu picnic.
“Dyma'r picnic gorau i mi fod
ynddo erioed,” meddai Onw.




Roedd llyfr llofnodion gan Onw.
Roedd eisiau i rai o'r eirth enwog
lofnodi eu henwau.
"Gallaf eu dangos i Cad a Dids," meddai Onw.
"I brofi 'mod i wedi cael antur hud."




Aethon nhw i chwilio am yr eirth enwog.
Ond roedd trafferth.
Roedd eirth cas yn gwthio'r eirth enwog
i mewn i gar.
"Herwgiapiad yw e," meddai Bynsen.
"Rhaid inni wneud rhywbeth."



Rhuodd y car i ffwrdd.
Gwelodd Cathimir fan.
“Dewch!” meddai. “Neidiwch i mewn!
Gallwn ddilyn yr
herwgipwyr ynnddi!”




Gyrrodd Cathimir y fan mor gyflym ag y medrai.
Aeth y car hyd yn oed yn fwy cyflym.
Gyrrodd i fyny ffordd fynyddig.
“Cyflymach, cyflymach,” galwodd Bynsen.
“Peidiwch â’u colli!” galwodd Tedi.



Gyrrodd y car drwy gatiau mawrion
a sefyll o flaen tŷ.

Cafodd yr eirth enwog eu gwthio i mewn.
“Mae’n edrych yn beryglus,” meddai Onw,
“ond rhaid inni eu hachub.

Mae gen i gynllun.”



Aeth Onw a Cathimir at y tŷ.
Canodd Onw gloch.

Daeth eirth cas at y drws.
“Mêl am ddim!” galwodd Onw.
“Mêl am ddim i bob arth.”



Roedd yr eirth cas yn farus a
fedren nhw ddim gwrthod y mêl.
Welson nhw ddim beth roedd Tedi a Bynsen yn ei wneud.
Aeth Tedi i'r car
a thynnu'r allweddi.




Aeth Bynsen i gefn y tŷ ac
edrych drwy ffenestr.
Gwelodd yr eirth enwog.
Roedden nhw wedi eu clymu.



Rhyddhaodd Bynsen yr eirth enwog.
Wedyn dringodd pawb drwy'r ffenestr.
"Dewch ymlaen," meddai Tedi. "Dilynwch fi a
pheidwch â gwneud sŵn."



Cripiodd yr eirth enwog
i mewn i'r fan fêl.
Welodd yr eirth cas mohonyn nhw gan eu bod
yn rhy brysur yn bwyta'r mêl.



Gwelodd un o'r eirth cas
fod yr eirth enwog yn dianc.
"Maen nhw yn y fan fêl!" gwaeddodd.
"Ewch ar ei hôl hi!"



Gyrodd Cathimir y fan fêl
mor gyflym ag y medrai.
Rhedodd yr eirth cas ar ôl y fan ond
aethon nhw'n sownd yn y mêl.
"Hwrê!" gwaeddodd Onw.



Roedd yr eirth enwog yn falch
o Onw a'i ffrindiau.

“Roeddech chi'n glyfar iawn,” medden nhw.

“Diolch i chi, gall Picnic y Tedis
fynd yn ei flaen!”

Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.

Roedd yn bryd i antur Onw
ddod i ben.

“Fedra i ddim aros i ddweud yr hanes
wrth Cad a Dids,” meddai.



“Disgleiriodd yr allwedd hud
neithiwr,” meddai Onw.

“Ces i antur hud.”

“Dydyn ni ddim yn dy gredu di,” meddai Cad.

“Na, breuddwyd oedd hi,” meddai Dids.

Yr Herwgipwyr



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 8



Pïod

Stori gan
Roderick Hunt

Lluniau gan
Alex Brychta

Addasiad Cymraeg gan
Juli Paschalis

Pïod Cam 8
Y drefn ddarllen a
gymeradwyr:

Yr Herwgipwyr
Antur Lychlynnauidd
Y Peiriant Enfysau
Y Carped Hud
Diwrnod yn Llundain
Antur Fictoraidd

Pïod Cam 9
Y drefn ddarllen a
gymeradwyr:

Yr Ynys Fach Werdd
Castell y Ddrycin
Supermwls
Y Frenhines Sbwriel
Chwilio
Cadw'n Fyw

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1990
Ⓜ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
Ⓜ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-314-8



9 790861 743147

ISBN 0 86 174314 8

DRAKE